Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2017-2018

Mawrth 2018



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Cyllid**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2017-2018

Mawrth 2018

www.cynulliad.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016 i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10, 18.11, 19 a 20 Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

O dan Reolau Sefydlog 19 ac 20, mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn cynnwys ystyried unrhyw adroddiad neu ddogfen a osodir gerbron y Cynulliad yn ymwneud â'r defnydd o adnoddau, neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae hyn yn cynnwys ymgymryd â gwaith craffu ar gyllideb y cyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

Ymhlith cyfrifoldebau'r Pwyllgor o dan Reolau Sefydlog 18.10 ac 18.11, mae goruchwylio llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, fel y nodir yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried unrhyw gynigion ar gyfer datganoli pwerau cyllidol i Gymru a chynnydd yn hyn o beth, fel rhan o'i gyfrifoldebau.

Gall y Pwyllgor hefyd graffu ar ddeddfwriaeth a gyflwynwyd i'r Cynulliad.

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Simon Thomas AC**
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Neil Hamilton AC**
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Mike Hedges AC**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Jane Hutt AC**
Llafur Cymru
Bro Morgannwg



**Steffan Lewis AC**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Nick Ramsay AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy



**David Rees AC**
Llafur Cymru
Aberafan

# Cynnwys

**Casgliadau....................5**

**1. Y cefndir....................6**

**2. Cronfeydd wrth gefn a chario ymlaen....................12**

**3. Iechyd a Gofal Cymdeithasol....................14**

**4. Benthyciadau i fyfyrwyr....................19**

**5. Gadael yr Undeb Ewropeaidd....................21**

**6. Cyrff a ariennir yn uniongyrchol....................23**

**Atiodiad 1: Cyllideb Atodol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2017-18 Memorandwm Esboniadol....................25**

**Atodiad 2: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2il Gyllideb Atodol 2017-18 Memorandwm Esboniadol i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid....................36**

**Adodiad 3: Archwilydd Cyffredinol Cymru – Memorandwm esboniadol....................38**

# Casgliadau

**Casgliad 1.** Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o fanylion ynghylch sut y mae dyraniadau newydd sylweddol o fewn y gyllideb atodol wedi cael eu blaenoriaethu a sut y mae Ffyniant i Bawb, y Rhaglen Lywodraethu neu Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi herio penderfyniadau buddsoddi. ........ Tudalen 11

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn dod i'r casgliad, er mwyn galluogi gwaith craffu mwy tryloyw ar benderfyniadau o'r fath, bod angen darparu manylion ariannol mwy penodol o ran sut y mae ymrwymiadau'n cael eu hariannu, er enghraifft, a yw ymrwymiadau'n cael eu hariannu o gronfeydd wrth gefn neu danwariant mewn meysydd eraill, pan fydd cyhoeddiadau o'r fath yn cael eu gwneud. ........ Tudalen 11

**Casgliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod cyfyngiadau'r cyllid trafodiadau ariannol, ond mae'n annog Ysgrifennydd y Cabinet i barhau i archwilio pob trywydd i ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael, o fewn rheolau Trysorlys y DU, p'un ai ar gyfer cynlluniau newydd, fel Cronfa Safleoedd sydd ar Stop Cymru, neu, er enghraifft, os yw taliadau yn y dyfodol ar gyfer cynlluniau presennol sy'n derbyn cyllid cyfalaf cyffredinol yn defnyddio'r cyllid trafodiadau ariannol sydd ar gael. ........ Tudalen 13

**Casgliad 4.** Roedd yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor gael hysbysiad cynnar o'r bwriad i geisio amrywiad i gyllidebau cymeradwy'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol, ac mae'n argymell y dull gweithredu hwn. ........ Tudalen 24

# 1. Y cefndir

**1.** Cafodd yr **Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2017-18** ei gosod gan Lywodraeth Cymru ar 6 Chwefror 2018. Mae'r dogfennau a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chynnig y Gyllideb Atodol yn cynnwys **Nodyn Esboniadol**[1] sy'n rhoi manylion am y canlynol:

- trosglwyddiadau rhwng Adrannau, neu bortffolios Gweinidogol, a throsglwyddiadau mawr o fewn Adrannau;
- trosglwyddiadau i/o Lywodraeth y DU;
- trosglwyddiadau i/o Gronfeydd Wrth Gefn; a
- dadansoddiadau o fewn Adrannau.

## 1. 1. Trosolwg o'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2017-2018

### Trosolwg o'r dyraniadau

**2.** Mae newidiadau sylweddol yn y Gyllideb Atodol hon, gan gynnwys nifer o ddyraniadau o'r cronfeydd wrth gefn, newidiadau rhwng refeniw a chyfalaf, a throsglwyddiadau rhwng portffolios. Mae'n cynnwys addasiadau i floc Cymru i adlewyrchu trosglwyddiadau a **symiau canlyniadol** a dderbyniwyd yng Nghyllideb yr Hydref 2017, Llywodraeth y DU, ac mae hefyd yn cynnwys newidiadau yn rhagolygon y Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn unol â'r diweddariadau a ddarparwyd i Drysorlys Ei Mawrhydi.

**3.** Mae'r llinell sylfaen refeniw arian parod wedi cynyddu £86.4m ac mae'r llinell sylfaen refeniw nad yw'n arian parod wedi cynyddu £313.3m. Mae'r llinell sylfaen cyfalaf traddodiadol wedi cynyddu £156.5 miliwn, ac mae'r cyfalaf trafodiadau ariannol wedi cynyddu £202.4 miliwn.

### Benthyca

**4.** Mae'r benthyciad arfaethedig o £20 miliwn, a gafodd ei gynnwys yn wreiddiol yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer yr M4, wedi'i ddileu o'r Gyllideb Atodol hon gan fod digon o arian ar gael yn y gyllideb gyfalaf gyffredinol.

[1] **Llywodraeth Cymru, Nodyn Esboniadol: Ail Gyllideb Atodol 2017-18**

## Newidiadau i'r llinellau sylfaen

**5.** Mae £7 miliwn o refeniw a £7.9 miliwn o gyfalaf yn cael eu trosglwyddo rhwng portffolios Gweinidogol, a nodir ym Mhennod 4 o'r Nodyn Esboniadol. Mae tua hanner hyn yn ymwneud â phrosiectau Buddsoddi i Arbed. Mae newidiadau eraill yn cynnwys:

- £2 filiwn o gyfalaf o Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus i Addysg mewn perthynas â throsglwyddiadau ar gyfer Dechrau'n Deg;
- £2 filiwn o gyfalaf o Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus i'r Economi a Thrafnidiaeth mewn perthynas â phrosiect Arian Cyfatebol yr UE ar gyfer "Cyrchfannau Denu Twristiaeth";
- £727,000 o gyfalaf o Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus i Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (y cyfan yn arian cyfalaf); ac
- £850,000 o refeniw o Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus i Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn hyrwyddo llesiant plant drwy fuddsoddi mewn hyfforddiant a chymorth mentora ar gyfer staff nad ydynt yn addysgu mewn ysgolion cynradd.

## Y prif ddyraniadau

**6.** Y prif gyllid ychwanegol a ddyrennir yn y gyllideb hon o'r cronfeydd wrth gefn yw:

- £146 miliwn o refeniw a £41 miliwn o gyfalaf ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys £50 miliwn ar gyfer perfformiad y GIG; £35 miliwn ar gyfer pwysau a diffygion yn y gaeaf; £30 miliwn ar gyfer y gyfradd ddisgownt yn achos hawliadau am anaf personol; £26 miliwn ar gyfer y diffyg yn y Cynllun Rheoleiddio Prisiau Fferyllol; £3.8 miliwn ar gyfer y gordal iechyd mewnfudo; a £41.2 miliwn o gyfalaf ar gyfer Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan.
- £3.7 miliwn o refeniw a £134.8 miliwn o gyfalaf ar gyfer Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys £4.1 miliwn o refeniw ar gyfer Cronfa Cymunedau'r Arfordir; £49.8 miliwn ar gyfer tai fforddiadwy; £40 miliwn ar gyfer y Gronfa Safleoedd sydd ar Stop; £30 miliwn ar gyfer ailwampio ffyrdd; £10 miliwn ar gyfer y cynllun Cymorth i Brynu; a £5 miliwn ar gyfer cynllun adfywio canol trefi.

- £16.7 miliwn o refeniw a £51.6 miliwn o gyfalaf ar gyfer yr Economi a Thrafnidiaeth, gan gynnwys £7.9 miliwn ar gyfer Trafnidiaeth Cymru, £4 miliwn ar gyfer Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus, £3.6 miliwn ar gyfer Cynghrair y Pencampwyr – y cyfan yn refeniw; £27.8 miliwn ar gyfer prosiect yr M4; £13 miliwn ar gyfer Neptune 6; £8.7 miliwn ar gyfer y diwydiant dur; a £2.1 miliwn ar gyfer rhaglen estyn band eang - y cyfan yn gyfalaf.

- £3.1 miliwn o refeniw cyllidol a o £300 miliwn o refeniw anghyllidol a £41.7 miliwn o gyfalaf ar gyfer Addysg, gan gynnwys £300 miliwn o refeniw anghyllidol mewn perthynas â stoc Benthyciadau Myfyrwyr a chostau Cyfrifo a Chyllidebu Adnoddau. £30 miliwn i'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, £6.2 miliwn ar gyfer cyflawni argymhellion Adroddiad Diamond a £5.7 miliwn o gymorth ar gyfer y sector addysg uwch – cyfalaf.

- £3 miliwn o refeniw ar gyfer y cynllun effeithlonrwydd ynni.

- £20 miliwn o refeniw ar gyfer Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, gan gynnwys £4 miliwn ar gyfer costau rhedeg Awdurdod Cyllid Cymru; £3.8 miliwn ar gyfer arian cyfatebol cronfeydd strwythurol yr UE; £2.1 miliwn ar gyfer trethi datganoledig; a £2 filiwn ar gyfer costau'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol.

## Cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Rhaglen Lywodraethu

**7.** Daeth **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** (Deddf 2015) i rym ar 1 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio i'w cyflawni a'u hystyried wrth wneud eu holl benderfyniadau, a phum ffordd o weithio i gyflawni'r nodau.

**8.** Ym mis Medi 2016, cyhoeddwyd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, **Symud Cymru Ymlaen**, sy'n cynnwys blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae'n nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni'i nodau o sicrhau economi gryfach a thecach, gwell gwasanaethau cyhoeddus, a Chymru unedig, gysylltiedig a chynaliadwy.

**9.** Hefyd, yn hydref 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth genedlaethol, **Ffyniant i Bawb.** Mae iddi bedair elfen, Ffyniannus a Diogel, Unedig a Chysylltiedig, Iach ac Egnïol, ac Uchelgeisiol ac yn Dysgu.

**10.** Wrth graffu ar Gyllideb Ddrafft 2018-19, gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid (Ysgrifennydd y Cabinet) sut yr oedd y gyllideb yn cysylltu â'r Rhaglen Lywodraethu, a dywedodd:

> "'Prosperity for All', which is the latest emanation of the Programme for Government, identifies five priority areas, and those priority areas helped shape the budget. They were part of our budget discussions. … So, the priority areas, from the programme for government and through "Prosperity for All", every one of them is aligned with the budget and every one of them has investments to try and allow us to do more."[2]

**11.** Wrth graffu ar Ail Gyllideb Atodol 2016-17, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "Inevitably, a supplementary budget is focused on dealing with in-year pressures and in-year opportunities and the big strategic alignments of budgets with the requirements of the Act are to be found in the main budget planning round. However, knowing that this committee would be interested in the way that the lens of the future generations Act can make a difference, even at the supplementary budget stage, we've discussed internally the allocations through the lens of the Act, where we've been able to do so."[3]

**12.** Ar ôl craffu ar Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2017-18, argymhellodd y Pwyllgor Cyllid"… y dylai Llywodraeth [Cymru] roi mwy o fanylion am sut y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio wedi dylanwadu ar ddyraniadau unigol ac ar y gyllideb gyfan yn y dyfodol".[4]

**13.** Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet sut y mae Ffyniant i Bawb, Symud Cymru Ymlaen a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi dylanwadu ar yr adnodd a'r arian cyfalaf ychwanegol a wnaed yn y gyllideb atodol. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "It's a matter of fine-tuning and managing existing commitments, by and large. As you say, Chair, it is complex because there are four or five different sorts of transactions being reported through the supplementary budget. There are transfers within main expenditure groups, there are transfers between MEGs, there are allocations from

---

[2] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Hydref 2017, paragraff 424

[3] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 16

[4] Adroddiad y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18, Tachwedd 2016, Argymhelliad 5

reserves, there are changes to the departmental expenditure limit as a result of allocations through UK budgets, and then there's the latest annually managed expenditure forecasts agreed with the Treasury, which we report here. So, there is a lot going on, particularly in the second supplementary budget, and that's how you get to some of the figures that you mentioned in your question. So, by and large, the decisions that you see here are decisions that were made many months ago. They are made by the portfolio Ministers. They are reported to the Assembly by those portfolio Ministers. They will have had questions asked of them in committee and sometimes in Plenary as well.

There are some new commitments, however. And that is where, I think, it is easier for me to explain the way in which larger considerations—'Prosperity for All' and the well-being of future generations Act—have an impact on the supplementary budget that you see. I can mention maybe three of them very briefly to you. You will see that there is £30 million in conventional capital here for road refurbishment at local authorities. The well-being of future generations Act says that we should aim for a more resilient Wales and the five ways of working say that prevention is one of the ways that we should try and achieve that. The case made to me by local authorities was that for the lack of sufficient capital to keep roads up to scratch, they ended up paying out money in revenue for claims against them when things went wrong. If we were able to provide them with an injection of conventional capital, they would be able to prevent that sort of spending in the future and they would be able to make the road infrastructure more resilient. So, I felt that that ticked lots of the boxes required by the Act and I was happy to agree to it.

There is £30 million, you will have seen, for Welsh-medium education capital. What that is allowing the education Secretary to do is create a stream of capital investment beyond this year. So, she's drawn forward into this year capital expenditure plans in the Welsh-medium sector and that will free up money for her over the next few years to create a new Welsh-medium investment strand in her budget. Given that we have an ambitious target for a million Welsh speakers by 2050, and we know that if we're ever going to reach that then being able to do more in Welsh-medium education is a key way of achieving that, and given that we have a well-being of future generations goal over cultural

vibrancy and Welsh-language vibrancy as well, then I think you can see the Act at work there.

And you'll have seen that there's significant investment in housing, including some new investment in housing in this budget. There again, looking to the long-term future of Wales—a healthier Wales brought about through collaboration as the five ways of working would suggest, and housing, particularly, relies on collaboration between the local authority, central Government, housing associations and private house builders. It's a genuinely collaborative effort, if we're to get to the 20,000 affordable homes and other ambitions that we have in housing over this Assembly term. So, where there are new allocations being made, the question of the Act and the alignment with other priorities is always part of the decision-making process and I think you can see that in this budget."[5]

## Safbwynt y Pwyllgor

**14.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Nodyn Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gyllideb Atodol yn gymharol gryno. Nid oes sôn ynddo am Ffyniant i Bawb, y Rhaglen Lywodraethu na Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, na sut y mae'r rhain wedi dylanwadu ar y broses o flaenoriaethu o fewn Llywodraeth Cymru wrth wneud dyraniadau yn y Gyllideb Atodol hon.

**15.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod safbwynt yr Ysgrifennydd Cabinet fod y Gyllideb Atodol yn broses dechnegol sy'n rhoi adborth ar benderfyniadau a wnaed drwy gydol y flwyddyn ac y bydd cwestiynau wedi codi am y penderfyniadau hyn yn y Pwyllgorau neu'r Cyfarfod Llawn.

**Casgliad 1.** Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o fanylion ynghylch sut y mae dyraniadau newydd sylweddol o fewn y gyllideb atodol wedi cael eu blaenoriaethu a sut y mae Ffyniant i Bawb, y Rhaglen Lywodraethu neu Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi herio penderfyniadau buddsoddi.

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn dod i'r casgliad, er mwyn galluogi gwaith craffu mwy tryloyw ar benderfyniadau o'r fath, bod angen darparu manylion ariannol mwy penodol o ran sut y mae ymrwymiadau'n cael eu hariannu, er enghraifft, a yw ymrwymiadau'n cael eu hariannu o gronfeydd wrth gefn neu danwariant mewn meysydd eraill, pan fydd cyhoeddiadau o'r fath yn cael eu gwneud.

[5] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 14 Chwefror 2018, paragraffau 7-10

# 2. Cronfeydd wrth gefn a chario ymlaen

**16.** Y cronfeydd wrth gefn a ddangosir yn yr Ail Gyllideb Atodol yw:

- Adnodd cyllidol £145 miliwn;
- Adnodd anghyllidol £118 miliwn;
- Cyfalaf cyffredinol £38 miliwn;
- Cyfalaf trafodiadau ariannol £152 miliwn.

**17.** Mae Cronfa Wrth Gefn Cymru wedi'i chapio ar £350 miliwn. Nid oes cyfyngiadau ar dalu i mewn i'r gronfa. Mae'r hyn y gellir ei dynnu allan bob blwyddyn yn gyfyngedig i £125 miliwn ar gyfer adnoddau, neu refeniw, a £50 miliwn ar gyfer cyfalaf. Yn ôl y Nodyn Esboniadol:

> "Mae adnoddau anghyllidol wedi'u clustnodi'n benodol ar gyfer eitemau anariannol, gan gynnwys dibrisiant, ac mae cyfyngiadau ar eu defnydd. Yn gyffredinol, nid oes angen yr hyblygrwydd arferol sydd ei angen i reoli'r adnoddau cyllidol a'r cyllid cyfalaf ar gyfer gwariant anghyllidol."[6]

**18.** Yn ystod y gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft 2018-19, trafodwyd y cyhoeddiad, yn dilyn Cyllideb Hydref 2017 Llywodraeth y DU, am y cyfalaf trafodiadau ariannol sydd i'w ad-dalu. Ar y pryd, tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet sylw at yr anhawster o ddod o hyd i brosiectau a fyddai'n cael yr effaith fwyaf a'r gwerth gorau am arian ar fyr rybudd.

**19.** Yn ystod y gwaith craffu ar y Gyllideb Atodol, tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet sylw at yr anawsterau hyn eto, gan ddweud:

> "…deploying financial transaction capital in Wales has not been easy; there is no great appetite out there for it."[7]

**20.** Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch trafodaethau gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi mewn perthynas â chario ymlaen y cyllid trafodiadau ariannol o £90 miliwn a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Hydref 2017 Llywodraeth y DU. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod wedi siarad â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys a'i fod wedi awgrymu:

---

[6] **Llywodraeth Cymru, Nodyn Esboniadol: Ail Gyllideb Atodol 2017-18, Tudalen 30**

[7] **Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 14 Chwefror 2018, paragraffau 13**

> "that the money would be used better if we were allowed to carry it forward into future years. She [The Chief Secretary to the Treasury] explained—and I've got to have some sympathy with her—that her job is to manage the whole of the UK's finances and that if we are asking for a carry-forward deal for Wales, she knows the Scottish Government is likely to be asking the same … So, while she was not unsympathetic to the case—I'd have to say that; she recognised what we were saying—she said to me that she couldn't give me an answer there and then, because she would have to manage the bigger picture of all of this. So, officials remain in dialogue with the Treasury. We are—. I'm trying to find the right word. "Hopeful" is probably at the stronger end of it, but we continue to work with the Treasury."[8]

## Safbwynt y Pwyllgor

**21.** Roedd Cyllideb Hydref 2017 Llywodraeth y DU yn cynnwys cyllid trafodiadau ychwanegol o £90 miliwn ar gyfer 2017-18. Er bod y cyllid hwn i'w groesawu, mae'r Pwyllgor yn ailadrodd ei bryderon a nodwyd yn ei adroddiad ynghylch **Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19** o ran y materion sy'n gysylltiedig â'r cyfalaf trafodion ariannol ad-daladwy. Mae'r Pwyllgor hefyd yn credu bod cyfyngiadau o ran defnyddio'r arian hwn yn amharu ar allu Llywodraeth Cymru i sicrhau gwerth gorau am arian wrth ddyrannu'r cronfeydd hyn. Mae'r Pwyllgor yn cytuno ag Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn afresymol disgwyl i Lywodraeth Cymru ddod o hyd i brosiectau addas ar gyfer yr holl gyllid hwn cyn diwedd y flwyddyn ariannol, ac mae'n cefnogi ei ymgais i sicrhau hyblygrwydd o ran cario cyfran sylweddol o'r cyllid hwn ymlaen i 2018-19.

**22.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu cynnydd Llywodraeth Cymru o ran dyrannu £64.2 miliwn o gyllid trafodion newydd yn y Gyllideb Atodol hon, ar ben £152.2m a ddyrannwyd yn flaenorol yn 2017-18.

**Casgliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod cyfyngiadau'r cyllid trafodiadau ariannol, ond mae'n annog Ysgrifennydd y Cabinet i barhau i archwilio pob trywydd i ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael, o fewn rheolau Trysorlys y DU, p'un ai ar gyfer cynlluniau newydd, fel Cronfa Safleoedd sydd ar Stop Cymru, neu, er enghraifft, os yw taliadau yn y dyfodol ar gyfer cynlluniau presennol sy'n derbyn cyllid cyfalaf cyffredinol yn defnyddio'r cyllid trafodiadau ariannol sydd ar gael.

[8] **Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 14 Chwefror 2018, paragraff 14**

# 3. Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Y newidiadau yn yr Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2017-18

**23.** Mae'r Nodyn Esboniadol yn cyfeirio at y dyraniadau ychwanegol a ganlyn yn y portffolio Iechyd a Gofal Cymdeithasol:


- £50 miliwn ar gyfer gwella byrddau iechyd yn barhaus gan gynnwys atgyfeirio at driniaethau, amseroedd aros am therapi a gwasanaethau diagnostig.
- £10 miliwn ar gyfer pwysau'r gaeaf, sy'n rhan o becyn gwerth £35.2 miliwn o gyllid ychwanegol i reoli'r pwysau ar y gwasanaeth iechyd yn y GIG ac ar gyfer unrhyw ddiffyg heb ei gynllunio ym Myrddau Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Hywel Dda.
- £26 miliwn i fynd i'r afael â'r diffyg incwm a ragwelir o'r Cynllun Rheoleiddio Prisiau Fferyllol.
- Cyfalaf: £41.2 miliwn i gefnogi Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan.

## Cyllid y GIG

**24.** Cyfrifon blynyddol cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru ar gyfer 2016-17 oedd yr adroddiadau cyntaf ar berfformiad yn erbyn y ddyletswydd ariannol statudol gyntaf a gyflwynwyd yn sgil **Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014**.

**25.** Roedd y sefyllfa gyfanredol ar gyfer yr holl Fyrddau Iechyd Lleol am y cyfnod o dair blynedd hyd at 2016-17 yn orwariant net o £253 miliwn. Mae'r map yn dangos y sefyllfa a adroddwyd yn erbyn y terfyn gwariant refeniw ar gyfer pob Bwrdd Iechyd Lleol:

**26.** Yn Nhabl 1, mae'r rhagolwg diweddaraf cyhoeddus o'r alldro ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18, ynghyd â'r alldro gwirioneddol ym mis Rhagfyr 2017 (Mis 9). Dywedodd y Byrddau Iechyd Lleol fod y diffyg cyfanredol hyd at fis Rhagfyr 2017 bron yn £135 miliwn, a bod yr amcangyfrif ar gyfer blwyddyn lawn 2017-18 dros £170 miliwn. Cymharer hyn â'r diffyg gwirioneddol ar gyfer 2016-17 o £147.8 miliwn (a diffyg net cronnus dros y tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2017 o bron £253 miliwn).


Betsi Cadwaladr
-£75.9m
Overspend
Underspend
Hywel Dda
-£88.3m
+£0.17m
Powys
+£0.65m
Aneurin Bevan
-£39.1m
Abertawe Bro Morgannwg
Cwm Taf
+£0.07m
Cardiff and Vale
-£50.5m
*Figures are rounded
National Assembly for Wales
Research Service

Tabl 1, Y rhagolygon diwedd y flwyddyn diweddaraf ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol 2017-18

| | Nodyn | Cynllun Blynyddol, 2017-18 | Alldro hyd yma, 2017-18 | |
|---|---|---|---|---|
| | | (Gor)/tanwariant £'miliwn | Sefyllfa yn: | (Gor)/tanwariant £'miliwn |
| Abertawe Bro Morgannwg | | (36.000) | Mis 9 | (26.003) |
| Aneurin Bevan | | 1.283 | Mis 9 | 0.676 |
| Betsi Cadwaladr | a | (36.000) | Mis 9 | (32.800) |
| Caerdydd a'r Fro | b | (30.900) | Mis 9 | (22.177) |
| Cwm Taf | | 0.000 | Mis 9 | (0.641) |
| Hywel Dda | | (69.600) | Mis 9 | (52.792) |
| Powys | | 0.000 | Mis 9 | (0.797) |
| **Tanwariant/(gorwariant) net, £'miliwn** | | **(171.217)** | | **(134.534)** |

***Ffynonellau: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o adroddiadau perfformiad ariannol mis 9***
*Nodyn 'a': mae adroddiad mis 9 yn nodi nad yw hyn yn cynnwys y £26m o gefnogaeth arian parod sydd wedi'i gadarnhau gan Lywodraeth Cymru.*
*Nodyn 'b': mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi ei fod wedi paratoi'r Adroddiad Cyllid ar sail diffyg arfaethedig o £30.9 miliwn yn 2017/18.*

**27.** Yn ystod gwaith craffu'r Pwyllgor ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2017-18, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "… there's no automatic assumption that money provided will be repaid. It's a case-by-case decision that the Cabinet Secretary has to make. Then that does become part of the dialogue that I have with him as to whether or not there is money that he's then able to retain and reuse, or whether it's money that comes back to the centre."[9]

**28.** Fel rhan o waith monitro rheoli perfformiad, mae gan sefydliadau'r GIG drefniadau goruchwylio gwahanol. Mewn datganiad gan Lywodraeth Cymru ar **1 Chwefror 2018**, cadarnhawyd fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau i fod o dan y trefniadau mesurau arbennig ac amlinellwyd y camau ychwanegol a oedd yn cael eu cymryd. Mae tri sefydliad (Abertawe Bro Morgannwg, Caerdydd a'r Fro a Hywel Dda) yn dal i fod o fewn y categori ymyrraeth wedi'i thargedu. Mae chwech o'r 10 sefydliad yn parhau i gael eu monitro'n rheolaidd.

**29.** Pan ofynnwyd pa drafodaethau a oedd wedi'u cynnal gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau y byddai'r byrddau

[9] **Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 5 Gorffennaf 2017, paragraff 22**

iechyd yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn hyderus y bydd y gyllideb iechyd yn byw o fewn ei therfynau.[10]

**30.** Aeth Ysgrifennydd y Cabinet ymlaen i egluro fod y diffygion y mae'r ddau Fwrdd Iechyd Lleol yn eu nodi yn gosod her yn anochel i'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd.[11]

**31.** Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet sut y bydd buddsoddiad cyfalaf yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd, a dywedodd:

> "…a great deal of capital investment in the health service is inevitably to do with service continuation, because equipment wears out and needs to be replaced. You're always looking to hope that it can be replaced in a way that is more efficient in revenue terms—that it will do more and last longer and be able to do more than the previous generation of machinery did. But a huge amount of what goes on in the health service is just keeping the show on the road. If you're using single-use instruments in surgery, for example, every time the surgery is over, the instrument is thrown away and has to be replaced with another one…
>
> But when there are new investments being made—to answer your original question—there are two key tests that I look at with Cabinet colleagues. I always say to them that I will give greater priority to capital investments that lead to revenue savings, because revenue is under such pressure, eight years into austerity, that if you can say to me, as a Cabinet Secretary, if I have some capital here, it will allow me to run that service more cheaply in revenue terms in the future, then, I will always be listening carefully to that case.
>
> Secondly, I always try and put an extra priority against those investments where there is service change being supported as well. So, there's a significant sum of money in here for what we previously called the SCCC, which is a major service change, of course, in the south-east part of Wales. And, the money that you mention in relation to Velindre is, of course, investment in a whole different way of funding that development, but that will create the cancer centre of the future for the greatest concentration of population in Wales. So, both of those are service change cases, and I look to try and align capital against those

---

[10] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 14 Chwefror 2018, paragraffau 56

[11] ibid

two criteria, as well as other things we take into account: 'Does is save me money? Does it contribute to change?'"[12]

## Safbwynt y Pwyllgor

**32.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Ysgrifennydd y Cabinet yn hyderus bod digon o gyllid o fewn y portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i alluogi'r Byrddau Iechyd Lleol i barhau i ddarparu gwasanaethau.

**33.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r sicrwydd gan Ysgrifennydd y Cabinet bod buddsoddiad cyfalaf newydd yn cael ei herio a'i flaenoriaethu tuag at y buddsoddiadau hynny sy'n debygol o arwain at arbedion refeniw neu helpu i newid gwasanaethau.

**34.** Mae'r Pwyllgor yn parhau i bryderu ynghylch lefelau blynyddol y diffygion wedi'i cynllunio a heb eu cynllunio yn y byrddau iechyd a'r gorwariant cronnus ers deddfu Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014. Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd ei fwriad i barhau i fonitro perfformiad Llywodraeth Cymru a pherfformiad sefydliadau'r GIG o ran bodloni'r cynlluniau treigl tair blynedd o dan Ddeddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014.

[12] **Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 14 Chwefror 2018, paragraffau 67-69**

# 4. Benthyciadau i fyfyrwyr

**35.** Mae'r newid mawr yn y portffolio Addysg yn ymwneud â benthyciadau i fyfyrwyr. Mae benthyciadau i fyfyrwyr yn cael eu harwain gan y galw, yn sensitif i gyfraddau llog a ffactorau macro-economaidd eraill, ac felly'n anodd eu rhagweld. Mae cynnydd o £300 miliwn yn y refeniw nad yw'n arian parod sy'n ymwneud â "benthyciadau i fyfyrwyr a chostau cyllidebu a chyfrifyddu adnoddau (RAB)".[13] Mae'r Nodyn Esboniadol yn dweud dim mwy na "*dyraniad ychwanegol o £300m mewn perthynas â Benthyciadau i Fyfyrwyr*".[14]

**36.** Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet egluro'r rhesymau dros y cynnydd hwn. Dywedodd:

> "..the £300 million in non-cash increase that you see in this budget is not real money—in my terms, anyway. It's not money I could have spent on paying for other things and it's money that has been provided to us by the Treasury to cover the non-cash element of the student loans."[15]

**37.** Dywedodd y Swyddog a oedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet:

> "… this resource accounting and budgeting—or RAB—charge budget that you're referring to increases every year, and the percentage of write-off has historically grown. In terms of—there was also a question about when, almost, this comes to fruition. I think one of the points is that, in making these write-off charges now, we're already predicting—and this goes into Treasury's modelling—that amounts will not be repaid."[16]

## Safbwynt y Pwyllgor

**38.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r cynnydd o £300 miliwn yn y gyllideb atodol hon mewn refeniw nad yw'n arian parod yn ymwneud â chostau Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau mewn perthynas â benthyciadau i fyfyrwyr. Er bod Trysorlys Ei Mawrhydi yn darparu'r dyraniad ychwanegol hwn nad yw'n arian parod i dalu

---

[13] Mae'r costau Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau (RAB), sy'n gyfystyr â'r gost flynyddol i Lywodraeth Cymru o ddiddymu llog y gellid ei gronni trwy fuddsoddi arian yn hytrach na benthyca i fyfyrwyr a chostau benthyciadau nad ydynt yn cael eu had-dalu, yn dod o gyllideb DEL (BEL Darpariaeth Cyllideb Adnoddau Benthyciadau i Fyfyrwyr).

[14] **Llywodraeth Cymru, Nodyn Esboniadol: Ail Gyllideb Atodol 2017-18, paragraff 3.4**

[15] **Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 14 Chwefror 2018, paragraff 99**

[16] **Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 14 Chwefror 2018, paragraff 8**

am ddyled benthyciadau i fyfyrwyr, ac nid fel arian y gallai Llywodraeth Cymru ei wario ar bethau eraill, mae'r Pwyllgor yn nodi â phryder bod canran y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr y rhagwelir na fydd yn cael ei dalu'n ôl, ac felly'n cael ei ddileu, yn cynyddu bob blwyddyn.

# 5. Gadael yr Undeb Ewropeaidd

**39.** Amlygir y cyllid ychwanegol a ganlyn gan Lywodraeth y DU yn Nodyn Esboniadol y Gyllideb Atodol:

- Refeniw: cynnydd o £3.8 miliwn gan Drysorlys Ei Mawrhydi mewn perthynas â Chronfeydd Strwythurol yr UE; a £2.95 miliwn gan Drysorlys EM tuag at gost ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

- Cyfalaf Cyffredinol: Cynnydd o £730,000 gan Drysorlys Ei Mawrhydi tuag at gost ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd

**40.** Cyfeirir at y dyraniadau penodol a ganlyn yn naratif y Gyllideb Atodol:

- £1.3 miliwn o Addysg i'r Economi a Thrafnidiaeth mewn perthynas â'r Rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith. Yn 2016-17, bu addasiad diwedd blwyddyn i'r Rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith gan ddarparu cyllid craidd ychwanegol ac felly bu modd gohirio derbyniadau'r UE i 2017-18. Mater amseru oedd hyn yn unig mewn perthynas â thynnu Cronfeydd Strwythurol yr UE i lawr, ac ni chafodd unrhyw effaith ar gyllid net y rhaglen;

- £2 filiwn o Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus i'r Economi a Thrafnidiaeth mewn perthynas â phrosiect Arian Cyfatebol yr UE ar gyfer "Cyrchfannau Denu Twristiaeth"; a

- £3.8 miliwn mewn perthynas â Chronfeydd Strwythurol yr UE (mae'n dangos fel dyraniad o'r cronfeydd wrth gefn).[17]

**41.** Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet a yw'r symiau canlyniadol diweddar wedi'u dyrannu, a dywedodd:

> "Roedd y Prif Weinidog wedi cyhoeddi cronfa newydd o £50 miliwn i'n helpu ni ac i helpu busnesau a helpu'r sector cyhoeddus hefyd i baratoi at y dyfodol. Nawr, ar lefel y Deyrnas Unedig yn y flwyddyn ariannol yma, roedd £250 miliwn ar gael, ac rŷm ni newydd, yn yr wythnos diwethaf, gael yr arian sy'n dod i ni ar ôl hynny. So, mae biti £3 miliwn ar ochr refeniw, a llai na £1 miliwn ar ochr cyfalaf yn y cyllid sydd wedi dod i ni yn y flwyddyn ariannol yma.

[17] **Llywodraeth Cymru, Nodyn Esboniadol: Ail Gyllideb Atodol 2017-18, tudalen 28**

> Nawr, mae £3 biliwn roedd y Canghellor wedi ei ddweud yn y gyllideb yn ôl ym mis Hydref a mis Tachwedd—nid ydym ni ddim wedi cytuno â'r Trysorlys eto faint o hynny sy'n mynd i ddod i ni, ond rŷm ni yn gwybod nawr, rŷm ni'n hyderus nawr yr ŷm ni yn mynd i wybod cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol faint o'r £3 biliwn sy'n mynd i ddod i Gymru yn y flwyddyn ariannol nesaf, a chyn diwedd y flwyddyn, i wybod faint o arian sy'n mynd i ddod atom yn 2019-20.
>
> So, ar hyn o bryd, beth rydw i wedi ei wneud yw jest rhoi'r arian sydd wedi dod yn y flwyddyn yma yn y reserves a chario'r arian ymlaen at y flwyddyn nesaf. Achos nid yw'n gwneud synnwyr i fi wneud penderfyniadau ar sut i ddefnyddio'r arian heb wybod faint o arian ychwanegol sy'n mynd i ddod i ni ar ôl y £3 biliwn. Pan fyddwn ni'n gwybod faint o arian sydd gyda ni o'r ddwy ffynhonnell, rydw i'n siŵr—nid ydym ni wedi gwneud y penderfyniadau yn swyddogol eto—y bydd yr arian yna ar gael i'n helpu ni yma yng Nghymru i baratoi am Brexit hefyd."[18]

## Safbwynt y Pwyllgor

**42.** Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru yn gwybod ar hyn o bryd faint o arian a fydd yn dod i Gymru mewn perthynas â'r cyllid o £3 biliwn a gyhoeddwyd i baratoi ar gyfer Brexit gan Lywodraeth y DU.

**43.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet y dylai Llywodraeth y DU ariannu buddsoddiad yng Nghymru mewn perthynas â dyletswyddau a chyfrifoldebau nad ydynt wedi'u datganoli sydd o dan awdurdodaeth Llywodraeth y DU.

[18] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 14 Chwefror 2018, paragraffau 112-114

# 6. Cyrff a ariennir yn uniongyrchol

**44.** Mae cynnig y Gyllideb Atodol hefyd yn cwmpasu dyraniadau i sefydliadau nad yw eu cyllidebau yn cael eu pennu gan Lywodraeth Cymru.

## Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**45.** Ar 14 Rhagfyr 2017, hysbysodd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Comisiwn) y Pwyllgor ei fwriad i osod Memorandwm Esboniadol yn gofyn am amrywiad i'w gyllideb. Roedd y Gyllideb Atodol ar gyfer y Comisiwn yn cynnig cynnydd o £700,000 yn y gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

**46.** Trafododd y Pwyllgor y Gyllideb Atodol ar gyfer y Comisiwn yn ei gyfarfod ar 11 Ionawr 2018 a derbyniodd mewn egwyddor y newid arfaethedig i'w gyllideb gymeradwy ar gyfer 2017-18.

**47.** Gosododd y Comisiwn y Memorandwm Esboniadol yn ffurfiol yn unol â Rheol Sefydlog 20.32 ar 22 Ionawr 2018.[19]

## Swyddfa Archwilio Cymru

**48.** Yn unol â Rheol Sefydlog 20.35, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru Femorandwm Esboniadol ar y cyd i'r Pwyllgor, gan nodi addasiadau arfaethedig i'r Amcangyfrif cymeradwy ar gyfer 2017-18.[20]

**49.** Roedd y Memorandwm Esboniadol yn gofyn am gynnydd o £325,000 yng ngofyniad Swyddfa Archwilio Cymru am adnoddau refeniw ar gyfer 2017-18 i ariannu'r gwaith ymchwil a datblygu a rheoli rhaglenni sy'n gysylltiedig â'i gwaith archwilio perfformiad ym maes llywodraeth leol.

**50.** Trafododd y Pwyllgor yr amrywiad i'r gyllideb ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru yn ei gyfarfod ar 15 Tachwedd 2017 a derbyniodd mewn egwyddor y newid arfaethedig i'r Amcangyfrif cymeradwy ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2018.

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

**51.** Ar 22 Rhagfyr 2017, cyflwynodd Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsman) Femorandwm Esboniadol i'r Pwyllgor, yn unol â Rheol

[19] **Cyllideb Atodol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2017-18: Memorandwm Esboniadol**

[20] **Memorandwm Esboniadol i'r Pwyllgor Cyllid ynghylch amrywio amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru am y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2018**


Sefydlog 20.36(i) (Atodiad A). Roedd yr amrywiad arfaethedig yn ymwneud ag incwm ychwanegol y cytunwyd arno ar gyfer aelod o staff ar secondiad, a fyddai'n cael ei ddefnyddio i ôl-lenwi'r swydd. Ni chafodd hyn unrhyw effaith net ar adnoddau nac arian parod.

**52.** Trafododd y Pwyllgor yr amrywiad i'r gyllideb ar gyfer yr Ombwdsmon yn ei gyfarfod ar 11 Ionawr 2018 a derbyniodd mewn egwyddor y newid arfaethedig i'w gyllideb gymeradwy ar gyfer 2017-18.

## Safbwynt y Pwyllgor

**Casgliad 4.** Roedd yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor gael hysbysiad cynnar o'r bwriad i geisio amrywiad i gyllidebau cymeradwy'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol, ac mae'n argymell y dull gweithredu hwn.

Atodiad 1



# Cyllideb Atodol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2017-18 **Memorandwm Esboniadol**

Rhagfyr 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ar-lein: **www.cynulliad.cymru**
E-bost: **cysylltu@cynulliad.cymru**
Ffôn: **0300 200 6565**

Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cyllideb Atodol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2017-18
# **Memorandwm Esboniadol**

Rhagfyr 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

# Cynnwys

**01. Y cefndir .... 1**

Memorandwm Esboniadol .... 1

Gwariant a Reolir yn Flynyddol .... 1

Effaith y gyllideb .... 1

**02. Cwmpas y gyllideb .... 2**

# 01. Y cefndir

Cafodd **Cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2017-18** ei chynnwys yn y Cynnig Cyllideb Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26 ac fe'i cymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Tachwedd 2016, ar ôl bod yn destun gwaith craffu gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad.

Roedd y cynnig cyllideb yn darparu £53.745 miliwn o Gyllideb Adnoddau i'r Comisiwn gan ddarparu:

– £36.613 miliwn i wasanaethau'r Cynulliad; a

– £15.532 miliwn i Benderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

Darparwyd £1.2 miliwn ychwanegol ar gyfer addasiadau cyfrifyddu nad ydynt yn arian parod mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad, a hynny drwy'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

Gosodir y Memorandwm Esboniadol hwn i gydymffurfio â Rheol Sefydlog 20.32, gan gefnogi newidiadau i'w cynnig i gyllideb gymeradwy y Comisiwn, drwy Gynnig ar y Gyllideb Atodol.

## Memorandwm Esboniadol

Effaith cyllideb atodol y Comisiwn fydd cynyddu'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn unol â'r rhagamcanion.

## Gwariant a Reolir yn Flynyddol

Pwrpas cyllideb gwariant a reolir yn flynyddol y Comisiwn yw'r addasiad cyfrifyddu nad yw'n arian parod mewn perthynas â rhwymedigaeth ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol. Pwrpas yr addasiad hwn yw sicrhau bod darlun cywir a theg o rwymedigaeth y Cynllun yn cael ei gofnodi yn Natganiad Sefyllfa Ariannol y Comisiwn; nid yw'n adlewyrchu'r symiau ariannol y mae'r Comisiwn yn eu talu i'r Cynllun. Nid oes unrhyw ofyniad cysylltiedig o ran arian parod ac nid yw gwneud newidiadau iddo'n effeithio o gwbl ar gyllideb Adnoddau na gwaith darparu gwasanaethau'r Comisiwn.

Ni ellir cyfrifo'r gwerth terfynol tan ar ôl 31 Mawrth, ond gofynnir am amcangyfrifon gan gynghorwyr proffesiynol yn ystod y flwyddyn. Yn seiliedig ar gyfrifiadau sy'n adlewyrchu newidiadau hysbys i'r gyfradd ddisgownt a newidynnau eraill sy'n effeithio ar yr amcangyfrif o rwymedigaethau'r cynllun, mae'r amcangyfrif diweddaraf ychydig yn llai nag £1.8miliwn.

Mae'r cynnydd hwn o ganlyniad i ostyngiad yn y gyfradd ddisgownt. 0.3% oedd y gyfradd ddisgownt wedi tynnu CPI ar 31 Mawrth 2017, a ddefnyddiwyd i gyfrifo cost gwasanaeth cyfredol 2017-18. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol o'i gymharu â'r gyfradd gyfatebol ar 31 Mawrth 2016, sef 1.3%. Mae gostyngiad yn y gyfradd ddisgownt net yn arwain at gynnydd yn y gost gwasanaeth cyfredol, un o brif elfennau'r gost cyllid pensiwn.

Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig cyllideb atodol gwariant a reolir yn flynyddol o £1.9 miliwn er mwyn sicrhau bod digon o wrth gefn i ymdopi ag unrhyw amrywiad o'r amcangyfrif yn y ffigurau diwedd blwyddyn terfynol.

## Effaith y gyllideb

Mae'r cynnig ar y Gyllideb Atodol yn cynnig yr hyn a ganlyn:

– cynnydd yn y gyllideb ar gyfer gwariant a reolir yn flynyddol o £0.7 miliwn i 1.9 miliwn.

# 02. Cwmpas y gyllideb

Gosodir y cyflwyniad cyllidebol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20 i helpu i lunio Cynnig Cyllideb sy'n ofynnol yn ôl Adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad hwn yn ceisio diwygio gofynion Comisiwn y Cynulliad o ran adnoddau a gofynion gwariant a reolir yn flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2018.

Mae'r Cynnig Cyllideb Atodol yn awdurdodi'r adnoddau net i'w defnyddio ar gyfer gwasanaethau a dibenion Gwasanaethau'r Aelodau a'r Cynulliad. Mae'r cynnig yn cynnwys uchafswm yr incwm (neu'r adnoddau cronnus) y gellir ei gadw i'w ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau hynny ac at y dibenion hynny yn hytrach na'i fod yn cael ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru, a'r arian parod y bydd angen ei gael o'r gronfa i dalu am y cyfansymiau net a ragwelir y bydd y Comisiwn yn gorfod talu amdanynt.

Nodir y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer Comisiwn y Cynulliad yn 2017-18, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion diwygiedig, isod yn Nhabl 1.

| **Tabl 1** | **Diwygiedig £000** |
|---|---|
| Arian ar wahân i arian cronnus i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu Gwasanaethau'r Cynulliad i gefnogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad'); hyrwyddo'r Cynulliad gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.<br>Arian ar wahân i arian cronnus i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau a gwariant mewn perthynas â darpariaeth Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. | 54,445 |
| Arian cronnus i'w gadw yn unol ag Adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru:<br>o'r broses o gael gwared ar asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog; neu<br>incwm rhent; anrhegion; cymorth grant; ad-daliadau ac incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill i'w defnyddio ar gyfer costau gweinyddu'r Cynulliad. | 300 |
| Y swm a ddaw o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu am y symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu o fewn y flwyddyn mewn perthynas â'r gwasanaethau uchod ac at ddibenion ar wahân i dderbynebau y gellir eu cadw a TAW y gellir ei adennill. | 50,245 |

Mae tabl 2 isod yn cysoni'r gofyniad adnodd net â'r gofyniad i dynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru.

Table 2 Gofyniad arian parod

| | £000 |
|---|---|
| | **2017-18** Diwygiedig |
| Gofyniad refeniw yr Aelodau | 15,532 |
| Gofyniad refeniw y Comisiwn | 36,513 |
| Gofyniad cyfalaf | 500 |
| Darpariaeth Pensiwn Aelodau'r Cynulliad | 1,900 |
| *Addasiadau:* | |
| Dibrisiant (nad yw'n arian parod) | (2,600) |
| Newidiadau yn y ddarpariaeth | (1,900) |
| Newidiadau o ran y dyledwyr a'r credydwyr | 300 |
| | |
| Gofyniad arian parod net i ddod o Gronfa Gyfunol Cymru | 50,245 |

Ombudsman Ombwdsmon
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

# Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

## 2[il] Gyllideb Atodol 2017-18

## Memorandwm Esboniadol i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

### Cefndir

Cynhwyswyd cyllideb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2017-18 yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 20.26 ac fe'i cyflwynwyd ar yr 20[fed] o Ragfyr 2016. Gwnaethpwyd newidiadau i'r gyllideb yn y Gyllideb Atodol 1[af] a gyflwynwyd ar y 27[ain] o Fehefin 2017. Nodir y newid arfaethedig canlynol i'r gyllideb honno isod:

### Incwm

Cytunwyd ar incwm ychwanegol mewn perthynas ag aelod o staff ar secondiad a chaiff ei ddefnyddio i gyflenwi'r swydd. Nid oes unrhyw effaith net ar adnoddau nac arian parod.

| 2[il] Gyllideb Atodol 2017-18 | Adnoddau | Arian parod |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Cyflogau a chostau cysylltiedig | 15 | 15 |
| | | |
| Incwm | -15 | -15 |
| | | |
| Gofyniad adnoddau/arian parod net | - | - |

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

| Cyllideb Atodol 2017/18 | 2il Gyllideb Atodol 2017/18 | Cyllideb Atodol 1af 2017/18 | Newid |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf** | 25 | 25 | 0 |
| **Terfyn Gwariant Adrannol Refeniw Ariannol** | | | |
| Cyflogau a chostau cysylltiedig | 2,965 | 2,950 | 15 |
| Costau cysylltiedig ag LGPS | 0 | 0 | 0 |
| | **2,965** | **2,950** | **15** |
| Eiddo | 416 | 416 | 0 |
| Systemau cyfrifiadurol a chymorth | 191 | 191 | 0 |
| Costau swyddfa | 130 | 130 | 0 |
| Ffioedd cyfreithiol a chynghori | 294 | 294 | 0 |
| Cyfathrebu | 78 | 78 | 0 |
| Hyfforddiant a recriwtio | 30 | 30 | 0 |
| Teithio a chynhaliaeth | 31 | 31 | 0 |
| Ffi archwilio | 20 | 20 | 0 |
| **Is-gyfanswm** | **4,155** | **4,140** | **15** |
| Incwm | -32 | -17 | -15 |
| **Cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol Refeniw Ariannol** | **4,123** | **4,123** | **0** |
| **Terfyn Gwariant Adrannol heb fod yn arian parod** | | | |
| Dibrisiant | 80 | 80 | 0 |
| **Terfyn Gwariant Adrannol Refeniw** (B+C) | **4,203** | **4,203** | **0** |
| **Cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol** (A+B+C) | **4,228** | **4,228** | **0** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | |
| Symudiad ar LGPS | 0 | 0 | 0 |
| Symudiad darpariaethau | 20 | 20 | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | **20** | **20** | **0** |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | | | |
| A+B+C+D | **4,248** | **4,248** | **0** |
| **Adnoddau Gofynnol** | **4,248** | **4,248** | **0** |
| Dibrisiant | -80 | -80 | 0 |
| Newid mewn Darpariaethau | -20 | -20 | 0 |
| Defnyddio Darpariaethau - LGPS | 0 | 0 | 0 |
| Defnyddio Darpariaethau - costau cyfreithiol | 42 | 42 | 0 |
| Symudiadau eraill mewn Cyfalaf Gweithio | 20 | 20 | 0 |
| **Gofynion Arian Parod Net** | **4,210** | **4,210** | **0** |

Atodiad 3

Hydref 2017

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Memorandwm esboniadol

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Memorandwm esboniadol i'r Pwyllgor Cyllid ynghylch amrywio amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2018

Cyflwynwyd i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w ystyried o dan Reol Sefydlog 20.35

**Isobel Garner**
Y Cadeirydd, ar ran Swyddfa Archwilio Cymru

**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Cynnwys


## Memorandwm Esboniadol

| | |
|---|---|
| Trosolwg | 4 |
| Diben y Memorandwm Esboniadol hwn | 5 |
| Cyflwyniad | 5 |
| Addasiadau i adnoddau refeniw a chyfalaf | 6 |
| Gofyniad arian parod net | 7 |
| Crynodeb | 7 |

## Atodiadau

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 – Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru 2017-18 (Diwygiedig) | 8 |
| Atodiad 2 – Crynodeb o ofynion cyllidebol 2017-18 i'w gynnwys yng Nghynnig Cyllidebol Atodol Gweinidogion Cymru o dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru | 9 |

# Trosolwg

1 Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru gyflwyno amcangyfrif blynyddol o'i hincwm a'i gwariant i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n rhaid i'r pwyllgor cyfrifol ystyried yr amcangyfrif hwnnw a'i osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, ar ôl gwneud unrhyw ddiwygiadau yr ystyria eu bod yn briodol.

2 Cynhwyswyd Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2017-18 yng Nghynnig Cyllidebol Blynyddol Llywodraeth Cymru o dan Reol Sefydlog 20.26 ac fe'i cymeradwywyd mewn Cyfarfod Llawn ar 10 Ionawr 2017 ar ôl i'r Pwyllgor Cyllid graffu arno.

3 Ar sail tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyllid ar 3 Tachwedd 2016, mae Swyddfa Archwilio Cymru bellach yn ceisio diwygio'r Amcangyfrif cymeradwy ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2018.

# Diben y Memorandwm Esboniadol hwn

## Cyflwyniad

4 Awdurdododd y cynnig cyllidebol Swyddfa Archwilio Cymru i gadw adnoddau cronnus gwerth £15.154 miliwn, a gynhyrchir drwy ffioedd a godir ar gyrff a archwilir a grant gan Lywodraeth Cymru, a darparodd adnoddau eraill gwerth £6.906 miliwn i gefnogi ein cynlluniau gwariant ar gyfer y flwyddyn. Gyda'i gilydd, defnyddir y swm hwn o £22.060 miliwn i ariannu'r costau y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn mynd iddynt wrth gyflawni ei dyletswyddau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

5 Roedd Amcangyfrif 2017-18 yn seiliedig ar y dybiaeth y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu grant gwerth £460,000 o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella er mwyn ariannu'n rhannol y gwaith ymchwil a datblygu a'r gwaith rheoli rhaglenni sy'n gysylltiedig â'n gwaith archwilio perfformiad ym maes Llywodraeth Leol. Cododd Paragraff 25 o'n Hamcangyfrif y posibilrwydd pe bai'r grant hwn yn cael ei leihau neu'i ddiddymu, y byddai angen i ni ddychwelyd at y Pwyllgor Cyllid er mwyn ceisio cyllid amgen. Daeth i'r amlwg yn ystod 2017-18 fod cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio'r grant yn tynnu'n groes i annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol, fel y nodir yn adran 8(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, ac felly rydym wedi cytuno â Llywodraeth Cymru na fydd yn rhoi'r grant hwn i ni mwyach.

6 Fodd bynnag, mae dal angen i ni wneud y gwaith ymchwil a datblygu ar gyfer gwaith archwilio perfformiad Cymru gyfan yr Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys datblygu dulliau archwilio, adnoddau asesu risg a meincnodi gwybodaeth am berfformiad ledled Cymru. Heb gael gyllid amgen yn lle o leiaf rywfaint o gyllid Llywodraeth Cymru, ni fydd gennym ddigon o adnoddau ar gyfer rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol. Roedd y grant hefyd yn cyllido gwaith i baratoi adroddiadau cryno cenedlaethol, ond ni fydd yr Archwilydd Cyffredinol yn llunio'r rhain mwyach. Ar ôl ailasesu'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn sgil y trafodaethau â Llywodraeth Cymru ac addasu cwantwm y gwaith a wneir, rydym nawr yn ceisio cynnydd o £325,000 yn yr adnoddau a gawn o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer 2017-18.

7 Heb gyllid ychwanegol o Gronfa Gyfunol Cymru, byddai'n rhaid i ni drosglwyddo'r costau i'r cyrff a archwilir gennym ac felly byddai angen diwygio Cynllun Ffioedd 2017-18, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Cyllid ym mis Chwefror 2017, a fyddai'n arwain at gynnydd annisgwyl mewn ffioedd ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

8 Mae Amcangyfrif 2018-19 yn cynnwys £280,000 i gyllido'r gwaith hwn o Gronfa Gyfunol Cymru dros y blynyddoedd nesaf.

9 Rydym yn parhau i drafod yn rheolaidd â Llywodraeth Cymru a all arwain at ddarnau penodol o waith comisiwn drwy gytundeb, ond nid oes unrhyw sicrwydd ynghylch hynny ar hyn o bryd. Os bydd hynny'n digwydd, byddem yn cyflawni'r gwaith drwy gyflogi mwy o gontractwyr.

10 Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn nodi'r addasiadau sydd angen eu gwneud i Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2017-18.

## Addasiadau i gyllidebau refeniw a chyfalaf

11 Fel yr esboniwyd uchod, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ceisio cynyddu'r adnoddau refeniw sydd eu hangen arni £325,000 ar gyfer 2017-18 i gyllido'r gwaith ymchwil a datblygu a'r gwaith rheoli rhaglenni sy'n gysylltiedig â'n gwaith archwilio perfformiad ym maes Llywodraeth Leol. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 1.

Tabl 1 – Nodir y newidiadau cyllidebol sydd eu hangen yn Nhabl 1.

| | **Amcangyfrif Cymeradwy 2017-18 £'000** | **Amcangyfrif Atodol 2017-18 £'000** | **Amcangyfrif Diwygiedig 2017-18 £'000** |
|---|---|---|---|
| Adnodd refeniw | 6,526 | 325 | 6,851 |
| Adnodd cyfalaf | 380 | - | 380 |
| Adnoddau cronnus | 15,154 | (460) | 14,694 |
| Cyfanswm y gwariant | 22,060 | - | 21,925 |

## Gofyniad arian parod net

### Tabl 2 – Nodir y newidiadau i'n gofyniad arian parod net yn Nhabl 2.

| | Amcangyfrif Cymeradwy 2017-18 £'000 | Amcangyfrif Atodol 2017-18 £'000 | Amcangyfrif Diwygiedig 2017-18 £'000 |
|---|---|---|---|
| Cais net am adnoddau – refeniw a chyfalaf | 6,906 | 325 | 7,231 |
| Addasiad anariannol – dibrisiant a chroniadau | (200) | - | (200) |
| Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru | 6,706 | 325 | 7,031 |

## Crynodeb

12 Mae Tabl 3 yn crynhoi'r adnoddau cyfalaf a refeniw a'r gofyniad arian parod net diwygiedig yn sgil cymeradwyo'r amcangyfrif atodol hwn.

### Tabl 3 – Crynodeb o geisiadau am adnoddau ac arian parod

| | Cais am adnoddau £'000 | Gofyniad arian parod net £'000 |
|---|---|---|
| Adnodd refeniw | 6,851 | 6,651 |
| Adnodd cyfalaf | 380 | 380 |
| Cyfanswm | 7,231 | 7,031 |

# Atodiad 1

## Incwm a Threuliau Swyddfa Archwilio Cymru 2017-18 (diwygiedig)

| Pennawdy gyllideb | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018 (Diwygiedig) £'000 | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018 (Amcangyfrif) £'000 |
|---|---|---|
| **Treuliau** | | |
| Costau staff | 15,411 | 15,411 |
| Staff contractwyr | 735 | 870 |
| Teithio a chynhaliaeth | 1,299 | 1,299 |
| Cwmnïau yn y sector preifat (gan gynnwys TAW) | 874 | 874 |
| Swyddfeydd | 938 | 938 |
| TGCh | 399 | 399 |
| Balans TAW anadenilladwy | 390 | 390 |
| Trefniadau Llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru | 300 | 300 |
| Hyfforddiant allanol | 255 | 255 |
| Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | 201 | 201 |
| Cyfieithu dogfennau | 145 | 145 |
| Costau eraill | 598 | 598 |
| **CYFANSWM Y TREULIAU** | **21,545** | **21,680** |
| **Incwm** | | |
| Ffioedd archwilio | 13,288 | 13,288 |
| Ffioedd ardystio grantiau | 1,406 | 1,406 |
| Grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella gan Lywodraeth Cymru | 0 | 460 |
| **CYFANSWM YR INCWM** | **14,694** | **15,154** |
| Cyfanswm y gyllideb refeniw i'w hariannu drwy Gronfa Gyfunol Cymru | 6,851 | 6,526 |

# Atodiad 2

## Crynodeb o ofynion cyllidebol 2017-18 i'w gynnwys yng Nghynnig Cyllidebol Atodol Gweinidogion Cymru o dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

O dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ('Deddf 2006'), gall Gweinidogion Cymru wneud Cynnig Cyllidebol Atodol yn y Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodi defnyddio adnoddau, cadw incwm a hawlio arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer personau perthnasol penodol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru.

Mewn perthynas â gwasanaethau a dibenion Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2018, bydd y Cynnig Cyllidebol yn awdurdodi'r canlynol:

- yr adnoddau sydd i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru;
- yr adnoddau sy'n cronni i Swyddfa Archwilio Cymru, y gall eu cadw (yn hytrach na'u talu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru); a'r
- swm y gellir ei dalu o'r Gronfa Gyfunol i Swyddfa Archwilio Cymru.

Ceir crynodeb o'r gofynion hyn, na ellir ond darparu amcangyfrifon ar eu cyfer oherwydd amrywioldeb ffrydiau incwm, yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1 – Crynodeb o ofynion cyllidebol amcangyfrifedig 2017-18

| | £'000 |
|---|---|
| • Adnoddau ac eithrio adnoddau sy'n cronni i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru wrth gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru, yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr penodedig llywodraeth leol, ac wrth weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru:<br>• Refeniw<br>• Cyfalaf | <br>6,851<br>380 |
| Adnoddau sy'n cronni o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio a gwasanaethau cysylltiedig (ac eithrio am waith i archwilio, asesu ac arolygu llywodraeth leol); costau eraill a adenillir sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol; incwm amrywiol o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol; costau a adenillir oherwydd staff ar secondiad; benthyciadau staff a ad-delir; taliadau prydlesu ceir a adenillir; a llog a geir ar falansau gwaith i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar wasanaethau cysylltiedig ac wrth weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. | 14,694 |
| Gofyniad arian parod net o'r Gronfa Gyfunol i dalu'r symiau net sy'n ddyledus i'w talu yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru. | 7,031 |

Mae Tabl 2 yn cysoni cyfanswm cais Swyddfa Archwilio Cymru am adnoddau â'i gofyniad arian parod net ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2018.

Tabl 2 – Cysoni'r gofyniad adnoddau â'r gofyniad hawlio arian parod o'r Gronfa Gyfunol

| | £'000 |
|---|---|
| Cais net am adnoddau – refeniw a chyfalaf | 7,231 |
| Addasiadau i gyfalaf gweithio net | (200) |
| Gofyniad arian parod net | 7,031 |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru